



Cyngor i sefydliadau sydd eisiau ymgynghori â phobl â dementia ynglŷn â dogfennau ysgrifenedig

Negeseuon allweddol

- Mae llawer o sefydliadau'n cynhyrchu dogfennau a allai effeithio ar fywydau pobl â dementia
- Gall sefydliadau wella eu dogfennau os bydd pobl â dementia'n rhannu eu safbwyntiau
- Gall llawer o bobl â dementia gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar ddogfennau ysgrifenedig ond mae'n bosibl y bydd angen cymorth i wneud hynny
- Mae gan bobl â dementia yr hawl i gyfrannu at strategaethau, polisiau a gweithdrefnau sy'n effeithio arnynt

Pam ymgynghori â phobl â dementia

'Dim byd amdanon ni hebddon ni!' Mae'r dywediad hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl yr hawl i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Yn aml, bydd gan bobl â dementia a'u gofalwyr ddealltwriaeth unigryw o fater yn ogystal â gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr.

Bydd ymgynghori â phobl â dementia yn ychwanegu hygyrdd eich gwaith, yn enwedig, ond nid yn unig, os yw'r ddogfen yn ymwneud â dementia.

Gweithio gyda grwpiau neu unigolion?

Mae rhai pobl â dementia yn gallu gweithio mewn grŵp ac yn barod i wneud hynny, tra bydd eraill yn ffarfio gweithio ar sail un i un neu'n unigol, efallai gyda chymorth gofalydd.

Mae gweithio gydag unigolion ar sail un i un yn caniatáu iddynt fynd trwy'r ddogfen yn eu hamser eu hunain ac yng nghysur eu cartrefi. Bydd llawer o bobl â dementia yn cael eu cynorthwyo i weithio trwy'r ddogfen gan aelod o'r teulu sy'n gofalu amdanynt neu ffrind.

Gall grwpiau o bobl â dementia gynnig safbwynt gwahanol. Gall sefyllfa grŵp annog creadigrwydd a gwahanol safbwyntiau. Gallai bod yn rhan o grŵp roi hwb i hyder pobl i gyfrannu.

Yn gyffredinol, gallai pobl ag anawsterau cyfathrebu sylweddol os mae modd rhoi cymorth iddynt leisio'u barn. Efallai byddant yn ei chael hi'n fwy anodd gweithio mewn grŵp – neu fod angen mwy o gymorth i gyfrannu.

Paratoi

Wrth wahodd pobl i wneud sylwadau ar ymgynghoriad, eglurwch yn fanwl beth rydych chi'n gofyn iddyn nhw ei wneud. Mae'n aml yn ddefnyddiol rhoi amlinelliad ysgrifenedig iddynt o flaen llaw. Gallai'r penawdau gynnwys:

- Pwnc yr ymgynghoriad
- Pwy ydych chi a'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli
- Pam rydych chi'n gofyn eu barn
- Sut y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal; beth yw'r dewisiadau ar gyfer cyfrannu safbwyntiau (e.e. trwy waith grŵp neu weithio ar sail un i un)
- Amserlen
- Beth fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad
- Os oes taliadau, beth fydd y trefniadau.

Gweler *Ysgrifennu gwybodaeth sy'n dementia-gyfeillgar* i gael syniadau am sut i ysgrifennu amlinelliad da.

Peidiwch â thybio unrhyw beth am alluoedd y bobl â dementia rydych chi'n ymgynghori â nhw. Efallai bydd rhai pobl yn cael anhawster darllen. Caniatewch ddigon o amser i ddarllen trwy'r dogfennau gyda'r grŵp neu'r unigolyn, gan egluro ac ehangu ar bwyntiau lle y bo'r angen.

Ceisiwch ganfod os oes gan unrhyw un anhawster cyfathrebu a meddyliwch am sut medrwch eu cynorthwyo. Yn aml, bydd gan grwpiau hwylusydd a fydd yn gallu rhoi arweiniad ar anghenion aelodau'r grŵp.

Mae rhai pobl yn hoffi derbyn y dogfennau a'r cwestiynau o flaen llaw. Gallai eraill deimlo bod hyn yn rhoi gormod o bwysau arnyn nhw. Ceisiwch ganfod beth fyddai orau gan y aelodau..

Yn bwysicaf oll – dylech osgoi biwrocratiaeth a gormod o waith papur.

Cyflwyno'r testun

Bydd y rhan fwyaf o bobl â dementia yn cael trafferth darllen dogfennau hir, cymhleth. Felly, ysgrifennwch grynodedb neu gofynnwch am safbwyntiau ar rannau penodol o'r ddogfen yn unig.

Meddyliwch am sut mae'r ddogfen yn cael ei chyflwyno: mae teip mawr clir gyda llawer o ofod gwyn yn haws ei ddarllen ac yn caniatáu i bobl ysgrifennu sylwadau ar y ddogfen wrth iddyn nhw fynd trwyddi os ydyn nhw eisiau.

Mae rhai pobl yn ei chael hi'n haws deall delweddau. Ystyriwch a allai rhywfaint o wybodaeth gael ei chyflwyno ar ffurf graff neu siart llif. Fodd bynnag, dylech osgoi delweddau a allai gael eu camddeall neu sy'n blentynnaidd neu'n nawddoglyd.

Gofynnwch i bobl sut maen nhw eisiau i'r dogfennau ymgynghori gael eu danfon atynt – er enghraifft, drwy'r post neu e-bost. Cofiwch nad oes gan bawb fynediad neu yn dymuno defnyddio'r rhyngwrwyd. Hefyd, os yw pobl yn defnyddio'r rhyngwrwyd, mae'n bosibl y byddan nhw'n cael trafferth agor atodiadau e-bost ac yn anfodlon argraffu mwy nag un dudalen.

Eglurwch sut rydych chi eisiau casglu adborth

Cytunwch ar sut y bydd ymatebion pobl i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio. Bydd llawer o bobl yn fodlon rhoi eu barn, ond efallai y byddan nhw eisiau aros

yn ddiennw neu eisiau i'w safbwyntiau gael eu priodoli i'r grŵp cyfan.

Mewn sefyllfa grŵp, gall hwylusydd wneud nodiadau. Dylai'r nodiadau hyn gael eu hysgrifennu a'u dychwelyd i'r grŵp er mwyn iddyn nhw gadarnhau eu bod yn gywir ac i roi cyfle iddyn nhw wneud ychwanegiadau.

Os ydych chi'n gweithio gydag unigolion, mae'n bosibl y bydd rhai yn fodlon ymateb i'ch cwestiynau, naill ai'n unigol neu gyda chymorth gofalydd.

Ystyriwch drefnu cyfweiliad ffôn neu gyfweiliad personol i gasglu safbwyntiau unigol os yw hynny'n well gan yr unigolyn â dementia.

Gwnewch yn siwr fod eich cwestiynau'n glir ac yn bob amser yn berthnasol.

Ar ôl yr ymgynghoriad

Cofiwch ddiolch pob amser i bobl am eu cyfraniad.

Dylai pobl gael gwybod sut fyddau cyfraniadau wedi cael eu defnyddio a beth yw canlyniadau'r ymgynghoriad. Gallai hyn fod yn ysgrifenedig i unigolion neu drwy gyflwyniad i grŵp.

Dylai unrhyw daliadau neu dreuliau gael eu talu'n brydlon.

Gweler hefyd...

I gael rhagor o wybodaeth am ymgynghori â phobl â dementia, gweler *Casglu safbwyntiau pobl â dementia*.

Crëwyd y canllaw hwn
gyda chymorth Grŵp
Thinking Together
Staple Hill

Nod canllawiau **DEEP** yw cynorthwyo pobl â dementia i gymryd rhan. Mae rhai wedi'u bwriadu ar gyfer grwpiau **DEEP**, tra bod eraill wedi'u bwriadu ar gyfer sefydliadau sydd eisiau gweithio'n dda gyda phobl â dementia. Maen nhw i gyd wedi cael eu cydgyhyrchu gyda phobl â dementia a byddan nhw'n cael eu diweddarau'n rheolaidd drwy gydol y prosiect. Croesawir awgrymiadau ar gyfer canllawiau newydd – **cysylltwch â Rachael Litherland yn Innovations in Dementia: e-bost rachael@myid.org.uk neu ffôn 01392 420076**